# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD IAU, 20 MAI 2021

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Anwen Hughes (Cadeirydd), Angela Russell a Gareth Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lis Williams (Heddlu Gogledd Cymru) a Carol Turner (preswylydd cyfagos)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

**Ar ran yr eiddo:**

Ms Heidi McKinnell (ymgeisydd)
Mr Dylan Evans (cynrychiolydd yr ymgeisydd)

**Eraill a wahoddwyd:**

**Preswylwyr Cyfagos:**

Margot Jones
Martin Turtle
Mike Parry ar ran Grahame a Les Oddy
Robert Kennedy
Einir Wyn – Clerc Cyngor Cymuned
Wyn Williams
Mark McClure

**Aelod Lleol:** Cynghorydd Dewi Roberts

**Adran Gwarchod y Cyhoedd:** Moira Duell Parry (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 5 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Black Sheep, 1 Lon Pont Morgan, Abersoch. Gwnaed y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol, darparu lluniaeth hwyr a cherddoriaeth wedi ei recordio gyda'r cyfan wedi ei ddarparu ar ac oddi ar yr eiddo

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod sawl gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan breswylwyr cyfagos a phryderon wedi eu cyflwyno gan Cyngor Cymuned Llanengan a'r Aelod Lleol.

Roedd y gwrthwynebiadau yn cyfeirio at bob un o'r amcanion trwyddedu. Awgrymwyd y byddai materion trosedd ac anrhefn yn deillio o ymddygiad gwrthgymdeithasol; cynnydd mewn ysbwriel a sŵn o ganlyniad i'r oriau arfaethedig; yr eiddo ger lôn brysur, diffyg palmant a diffyg parcio yn diystyru diogelwch y cyhoedd.

Adroddwyd nad oedd cytundeb wedi ei gyrraedd gyda'r ymgeisydd ac Adran Gwarchod y Cyhoedd o ran cyfaddawdu i gwtogi oriau defnydd allanol yr eiddo o ran chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio a darpariaeth alcohol, yn unol a mannau eraill yn y pentref. Amlygwd bod yr ymgeisydd wedi diwygio'r cais i gyfarch pryderon o ran defnydd tu allan i'r eiddo ar gyfer cwsmeriaid, gydag alcohol a cherddoriaeth hyd at 21:00 yn hytrach na 23:00. Er hynny, roedd yr Adran yn parhau i wrthwynebu'r cais ar sail bod yr ardal yn un preswyl a bod busnesau tebyg gyda llecynnau allanol wedi cyfyngu eu horiau mewn mannau eraill yn y pentref.

Argymhellwyd fod y Pwyllgor yn gwrthod y cais yn unol â'r hyn a amlygwyd gyda'r ymgynghoriad, ac yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr Heddlu i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r Heddlu
- Gwahodd deilydd y drwydded neu gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded a'r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd:

- Bod yr adeilad, yn y gorffennol wedi cael ei ddefnyddio fel lle bwyta - y cais yn un am drwydded ar gyfer lleoliad sydd wedi cael trwydded yn y gorffennol

- Nad oedd angen caniatâd cynllunio i leoli 4 - 5 bwrdd tu allan
- Bod bwyty Crwst drws nesaf gyda thrwydded a byrddau bwyta tu allan - yr ymgeisydd yn ceisio yr un peth
- Bwriad yw cau yr ardal allanol am 21:00
- Bwriad cael cerddoriaeth gefndirol yn unig - dim cerddoriaeth byw
- Bod cais am drwydded gwerthu alcohol yn un ar gyfer y busnes fel bwyty ac nid fel tafarn
- Bydd y bwyty yn cyflogi pobl leol
- Bod problemau parcio yn broblem gyffredinol yn Abersoch
- Eu bod yn barod i gydweithio gyda'r gymuned a'r swyddogion perthnasol

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod bwriad gosod 4 – 5 bwrdd picnic tu allan i'r eiddo

c) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Margot Jones a Martin Turtle

- Bod lleoliad y bwyty yn uniongyrchol o dan eu cartref
- Eu bod yn bryderus iawn am effaith llygredd sŵn – hyn yn tarfu ar eu mwynhad arferol o fod yn eu cartref a'u gardd
- Bod lleoliad bwriadedig ar gyfer eistedd tu allan yn peri pryder – potential sŵn gyda'r nos ac i'r oriau mân
- Yn creu gofid i'w hiechyd - mae meddwl am fyw uwchben y datblygiad yn annioddefol
- Bod cyfeiriad at y bwyty mewn cylchgrawn yn cyfeirio at y bwyty fel lleoliad ar gyfer 'Alfresco Dinig area with fire pit', ac yn cynnig enw gwahanol i'r hyn sydd ar y drwydded
- Y bwriad yn orddatblygiad o'r safle
- Yn bobl leol sydd angen llonydd - dim eisiau mwy o sŵn yn tarfu ar eu bywydau

Mike Parry (ar ran Grahame a Les Oddy)

- Bod y bwriad yn tanseilio'r pedwar amcan trwyddedu
- Bod angen gwarchod y cyhoedd
- Bod gwrthwynebwyr wedi lleisio eu rhestru eu rhesymau gwrthod yn glir
- Byddai ehangu'r ddarpariaeth i gyrion y pentref yn symud canolbwynt y pentref gan aflonyddu rhannau distaw o'r pentref

Robert Kennedy

- Nad oedd angen bwyty arall yn y pentref i werthu alcohol
- Bod maint a bwriad y bwyty yn anaddas ar gyfer y safle
- Bod terfyn yr eiddo yn agos iawn at gartrefi preswyl
- Pryder am lygredd sŵn - y sŵn yn creu effaith andwyol ar yr heddwch o gael eistedd allan yn yr ardd
- Bod oriau agor hyd 21:00 yn parhau yn hwyr - awgrym i gwtogi amser agor i 18:00
- Awgrym i symud yr ardal bwyta tu allan i flaen yr eiddo
- Bod y bwriad yn tanseilio'r pedwar amcan trwyddedu
- Tebyg y bydd ymwelwyr yn defnyddio'r byrddau gyda'r nos i sgwrsio ac yfed wedi oriau cau'r tafarndai lleol - hyn yn creu problemau sŵn ychwanegol
- Pryderon sbwriel

Einir Wyn (Clerc Cyngor Cymuned)

- Amlygu pryderon sŵn
- Pryderon parcio – drwy ddefnyddio'r ardal parcio ar gyfer bwyta, bydd hyn yn golygu llefydd parcio prin yn cael eu colli
- Dim ymateb wedi ei dderbyn gan y Cyngor ynglŷn â newid defnydd
- 4 o fyrddau bach oedd tu allan i'r bwyty blaenorol wedi eu gosod ar flaen yr adeilad
- Dim gwrthwynebiad i'r bwyty - pryderon am werthu alcohol a cherddoriaeth hwyr y nos
- Rhaid ystyried y pedwar amcan trwyddedu

Wyn Williams

- Bod oddeutu 70 o dai o fewn canllath i'r safle
- Yr ardal yn hanesyddol yn cael ei chydnabod fel ardal breswyl
- Gwrthodwyd apêl i drwydded safle cyfagos oherwydd tanseilio tri o'r amcanion trwyddedu - dim eisiau dychwelyd i gyfnod o dderbyn cwynion am drosedd ac anrhefn, diogelwch y cyhoedd a niwsans cyhoeddus
- Bod y ddarpariaeth yn ymestyn allan o ganol y pentref
- Bod y busnes twristiaeth yn bwysig a gwelwyd cynnydd mewn nifer teuluoedd i'r ardal yn ddiweddar – hyn i'w groesawu – teuluoedd yn parchu'r amgylchedd ac yn ennyn llai o gwynion
- Angen parchu ardal breswyl - rhaid rhoi ystyriaeth i hyn
- Bod diffyg parch i'r Iaith Gymraeg – pam rhoi enw 'Black Sheep'?
- Mewn argyfwng, sut fydd y gwasanaethau brys yn cyrraedd safle'r Bad Achub?
- Nid yw'r diwygiadau yn ymateb i'r pryderon
- Bod y safle ei hun yn beryg – dim palmant
- Dim ffenestri dwbl ar yr adeilad - pryderon llygredd sŵn
- Dim plismyn na swyddogion gwarchodaeth ddigonol i gadw llygad a chadw trefn
- Annog yr Is-bwyllgor i dderbyn argymhelliad y Swyddog Trwyddedu

Mark McClure

- Ei fod yn byw gerllaw'r safle
- Bod gwelliannau i'r pentref, ond na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn welliant
- Ers i'r clwb nos gau gerllaw, yr ardal wedi distewi - bydd llygredd sŵn i'r ardal yn dychwelyd gyda'r datblygiad
- Pam fod angen ardal eistedd tu allan?
- Nid yw'r bwyty drws nesaf yn chwarae cerddoriaeth - pam felly caniatáu cerddoriaeth gefndirol i effeithio ar y bwyty drws nesaf a phreswylwyr cyfagos?
- Nid yw'r bwriad yn addas – dim buddiannau
- Pryder am ddiffyg llefydd parcio
- Bydd y bwriad yn achosi niwsans cyhoeddus i ardal breswyl llawn teuluoedd
- Llefydd bwyta digonol yn y pentref - dim angen mwy
- Bod yr eiddo mewn safle peryg – bydd pobl yn cronni ar lon brysur

Cynghorydd Dewi Roberts (Aelod Lleol)

- Bod trafodaeth agored rhwng yr ymgeisydd a'r swyddogion yn fuddiol
- Ategu pryder preswylwyr cyfagos
- Bod y safle yn anaddas ar gyfer gwerthu alcohol - wedi ei leoli ar gyrion y pentref - bwyty yn dderbyniol ond dim bar – hyn yn annog trafferthion

- Siomedig nad oedd yr Heddlu wedi amlygu pryderon traffig
- Dim palmant - lleoliad peryg i groesi'r lon
- Bod nifer y byrddau i weld yn ormod – 6 bwrdd picnic yn eistedd hyd at 24 o unigolion
- Angen cwestiynu addasrwydd yr adeilad
- Cefnogi'r argymhelliad i wrthod

Moira Duell Parry (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd)

- Bod yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus wedi ei ystyried - y safle o fewn ardal breswyl – pryderon wedi amlygu am yr ardal allanol
- Bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r ymgeisydd – cais am fwy o fanylder mewn ymateb i'r pryderon
- Gyda chyfyngiadau covid 19 nid oes modd ymweld â'r safle ac felly dim manylion monitro wedi eu gweithredu - fel arfer byddai cynllun rheoli sŵn wedi ei adnabod ynghyd ac awgrymiadau offer a chynllun rheoli pobl
- Lleisiau yn codi yn naturiol gydag alcohol ac yn debyg o greu aflonyddwch
- Diffyg eglurhad am ddefnydd y datblygiad – hyn yn debygol o arwain at gwynion
- Cais i'r ymgeisydd ddarparu mwy o dystiolaeth ynglŷn â sut bydd y bwriad yn cael ei reoli

Cyfeiriwyd at y sylwadau eraill a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus

ch) Yn manteisio ar y cyfle i gloi'r achos, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y pwyntiau canlynol:

- Eu bod yn derbyn pryderon y preswylwyr cyfagos
- Eu bod yn barod i ystyried trwydded ar gyfer tu mewn yn unig
- Nad oedd caniatad wedi ei roi i gynnwys y cylchgrawn
- Nid 'bar and grill' yw'r bwriad – caffi gyda'r dydd ydyw a stecdŷ gyda'r nos
- Barod i ystyried cau am 18:00
- Bod y bwyty drws nesaf gyda thrwydded alcohol a byrddau picnic – pam roi i un ac nid i un arall?
- Canllawiau covid 19 yn caniatáu hyblygrwydd gyda bwyta tu allan
- Bod yr ymgeisydd yn berson lleol - eisoes yn rhedeg bwyty arall yn y pentref
- Nad oedd yr Heddlu wedi datgan unrhyw wrthwynebiad
- Bod cyfaddawdu yn opsiwn - posib trafod defnydd o'r ardal bwyta tu allan
- Bod bwriad cau ar ddydd Llun a dydd Mawrth – yr ymgeisydd gyda theulu ifanc ac eisiau treulio amser gyda'r teulu

Ategodd y Rheolwr Trwyddedu bod pryderon gwirioneddol am ddefnydd tu allan i'r safle.

d) Ymneilltuodd yr ymgeisydd, yr ymgynghorwyr, y Rheolwr Trwyddedu a Swyddog yr Amgylchedd o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

dd) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu yn ogystal â sylwadau llafar a dderbyniwyd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn

ii. Atal niwsans cyhoeddus

iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus

iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais diwygiedig**

**Rhoddwyd y drwydded fel a ganlyn:**

1. **Oriau agor:**
   **- Sul-Sadwrn 09:00-23:30**
   **- Awr derfynol 00:30 ar Noswyl Calan**
   **- Ardal eistedd tu allan yn cau 21:00 bob dydd**

2. **Cerddoriaeth wedi recordio (tu mewn yn unig):**
   **- Sul-Sadwrn 09:00-23:00**
   **- Awr derfynol 00:00 ar Noswyl Calan**

3. **Cyflenwi alcohol (i yfed ar ac oddi ar eiddo):**
   **- Sul-Sadwrn 09:00-23:00**
   **- Awr derfynol 00:00 ar Noswyl Calan**

4. **Ymgorffori'r materion sydd wedi eu rhagnodi yn Atodlen Weithredol (Rhan M) y cais fel amodau ar y drwydded.**

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau.

Diystyrwyd sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion trwyddedu e.e. dadleuon nad oes angen eiddo trwyddedig ar yr oriau y gofynnwyd amdanynt neu o gwbl, neu ddiffyg caniatâd cynllunio perthnasol. Nid yw'r materion hyn yn ystyriaethau ceisiadau trwydded eiddo.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i'r canlynol.

Derbyniwyd 9 ymateb gan aelodau'r cyhoedd a phreswylwyr cyfagos yn gwrthwynebu'r cais gan gyfeirio at y pedwar amcan trwyddedu. Mynegwyd pryderon y byddai caniatáu'r drwydded yn debygol o arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, sbwriel, sŵn, problemau diogelwch y cyhoedd (diffyg palmant a diffyg gofod parcio). Adleisiwyd y pryderon hyn gan yr Aelod Lleol a'r Cyngor Cymuned.

Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau gan Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor yn nodi ymgais i ganfod cyfaddawd gyda'r ymgeisydd i gyfarch pryderon o ran defnydd tu allan i'r eiddo ar gyfer cwsmeriaid. Ystyriwyd bod y trafodaethau hyn wedi annog yr ymgeisydd i gyflwyno cais diwygiedig i gyfarch pryderon o ran defnydd tu allan i'r eiddo ar gyfer cwsmeriaid, gydag alcohol a cherddoriaeth hyd at 21:00 yn hytrach na 23:00. Er diwygio'r cais, roedd yr Uned yn parhau i wrthwynebu'r cais ar y sail bod y safle wedi ei leoli o fewn ardal breswyl a bod busnesau tebyg hefo llecynnau allanol wedi cyfyngu oriau mewn mannau eraill yn y pentref.

Nodwyd bod yr Heddlu wedi nodi nad oeddynt yn gwrthwynebu'r cais.

Amlygodd yr Is-bwyllgor eu bod yn derbyn bod y pryderon a fynegwyd ynglŷn â’r cais yn rhai diffuant. Fodd bynnag, nid oedd yr Is bwyllgor o’r farn bod tystiolaeth ddigonol wedi dod i law i brofi bod y problemau hyn yn debygol pe byddai’r drwydded yn cael ei chaniatáu, ac y byddai’n groes i’r amcanion trwyddedu.

Amlygwyd pryder y byddai cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er hynny, ni chyflwynwyd tystiolaeth i gefnogi’r honiad tu hwnt i honiadau cyffredinol am yfed y gellid eu priodoli i unrhyw eiddo trwyddedig. Ni chyflwynwyd rhesymau na thystiolaeth pam y byddai’r eiddo penodol yma yn debygol o achosi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ni ystyriwyd bod yr eiddo wedi gweithredu fel eiddo trwyddedig ers sawl blwyddyn o dan berchnogion gwahanol heb broblemau neilltuol o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ymddengys bod y sylwadau wedi cael eu cyflwyno ar sail dyfalu ac nid tystiolaeth - nid yw hyn yn sail gyfreithiol i wneud penderfyniad - yn ôl yr Uchel Lys yn R (on the application of Daniel Thwaites Plc) v Wirral Corough Magistrates Court [2008] EWHC 838 (Admin).

Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan yr Heddlu: Ystyriwyd be fyddai problemau troseddu tebygol yn codi, byddai’r Heddlu wedi amlygu hyn. O dan yr amgylchiadau, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei perswadio y byddai rhoi’r drwydded yn tanseilio’r amcan o atal trosedd ac anrhefn.

Yng nghyd-destun pryderon sbwriel a sŵn pe rhoddir y drwydded, ystyriwyd y sylwadau fel pryderon cyffredinol yn seiliedig eto ar ddyfalu heb gyflwyno tystiolaeth gadarn. Ni roddwyd ystyriaeth i ddefnydd y safle yn y gorffennol fel eiddo trwyddedig a’r diffyg hanes o bryderon sbwriel a sŵn ynghlwm a’r safle. Gan nad oedd tystiolaeth i gefnogi’r honiadau nid oedd sail felly i dderbyn y byddai rhoi’r drwydded yn achosi problemau niwsans cyhoeddus.

Wrth ystyried pryderon diogelwch ffyrdd, diffyg palmant ar gyfer cerddwyr a diffyg gofod parcio ar y safle, ystyriwyd y pryderon yng nghyd-destun yr amcan trwyddedu o ddiogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, nid oedd yr Adran Priffyrdd na’r Heddlu wedi cyflwyno sylwadau ar y materion hyn. Amlygwyd nad yw’n dderbyniol derbyn y byddai pawb yn gyrru i’r lleoliad, o gofio ei fod o fewn pellter cerdded o nifer o safleoedd gwyliau yn y pentref. O ganlyniad i ddiffyg sylwadau gan arbenigwyr yn y maes, nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio bod caniatáu’r cais yn debygol o danseilio diogelwch cyhoeddus.

Roedd y pryderon a gyflwynwyd am ddiogelwch plant hefyd yn rhai cyffredinol, yn seiliedig ar ddyfalu heb dystiolaeth gadarn. Nid oedd yr Is-bwyllgor felly o’r farn bod y cais yn tanseilio’r amcan trwyddedu o warchod plant rhag niwed.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ei synnu bod rhai partïon wedi argymell gwrthod y cais yn llwyr. Tra bo’ rhydd i bawb ei farn, roedd yr Is-bwyllgor yn disgwyl y byddai argymhellion swyddogol yn seiliedig ar ddealltwriaeth gywir o’r rheolau trwyddedu - nid oes rheol yn mynegi na chaiff eiddo trwyddedig ei agor mewn ardal breswyl. Rhaid derbyn asesiad o’r dystiolaeth yn erbyn yr amcanion trwyddedu os am gyflwyno argymhellion. Roedd yr Is-bwyllgor hefyd o’r farn bod yr argymhelliad i wrthod y cais yn un llawdrwm sydd yn groes i fframwaith ac ysbryd ‘*ysgafn’* y Ddeddf Trwyddedu.

O dan yr amgylchiadau roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais diwygiedig yn gydnaws â’r pedwar amcan trwyddedu. Caniatawyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i’r cais yr hawl i

gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.50 y.h.

**CADEIRYDD**